CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru Canllawiau sy'n berthnasol i bob rownd: Addendwm i Adrannau B ac C

Adendwm i Adran B: Cymhwystra, ac Adran C: Cyfraddau Ymyrraeth.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 1 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau-syn-berthnasol-i-bob-rownd-addendwm-i-adrannau-b-ac-c** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Adran B: Cymhwystra

Adran C: Cyfradd Ymyrraeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau-syn-berthnasol-i-bob-rownd-addendwm-i-adrannau-b-ac-c** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae'r adendwm hwn yn cyfeirio at Ganllawiau Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i lyfryn pob rownd a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2022. Gwneir yr holl newidiadau ac ychwanegiadau i Adran B – Cymhwystra ac Adran C – Cyfraddau Ymyrraeth y llyfryn gwreiddiol ac maent yn berthnasol i Rownd Ariannu Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yn unig.

Mae hyn bellach yn cael ei ddisodli gan y canlynol:

# Adran B: Cymhwystra

## Pwy na fydd yn gallu gwneud cais?

Efallai y bydd gan bob cylch ariannu feini prawf anghymhwystra penodol ac ychwanegol i'r rhestr isod, a fydd yn cael eu nodi yn ei ganllawiau penodol.

## Nid ydych yn gymwys i wneud cais os ydych:

- Wedi eich cael yn euog o dwyll o dan unrhyw gynllun grant arall
- Wedi torri mesurau cadwraeth neu reoli yn ddifrifol o fewn y 12 mis blaenorol
- Neu mae llong rydych chi'n ei gweithredu wedi'i rhestru ar gyfer cymryd rhan mewn pysgota IUU gan y DU; neu Gwladwriaeth baner y llong; neu Sefydliad neu Drefniant Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol (RFMO/A); neu wedi eu hysbysu am gymryd rhan mewn pysgota IUU o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau Pysgota.
- Wedi eich cael yn euog o drosedd sy'n cael ei hystyried yn 'dor-cyfraith ddifrifol' (gan gynnwys unrhyw bysgota IUU neu dwyll anghyfreithlon), yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau-syn-berthnasol-i-bob-rownd-addendwm-i-adrannau-b-ac-c** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

12 mis cyn gwneud cais.

## Adran C: Cyfradd Ymyrraeth

Eich cyfrifoldeb chi yw cael gafael ar arian cyfatebol a'i ddarparu, fel benthyciadau busnes neu adnoddau arian parod. Bydd angen tystiolaeth o'r ffynhonnell gyllid hon fel rhan o'r broses ymgeisio.

Mae'r gyfradd ymyrraeth yn ddibynnol ar eich math o fusnes neu sefydliad fel y manylir yn y tabl isod gyda'r gyfradd uchaf wedi'i rhestru.

| **Ymgeisydd** | **Y gyfradd ymyrraeth uchaf** |
|---|---|
| SME-Micro-endid<br><br>Mae micro-endid yn fusnes sydd â llai na 10 o weithwyr neu lai ar adeg gwneud cais ac un o'r nodweddion canlynol: a) trosiant o £632,000 neu lai; b) £316,000 neu lai ar ei fantolen. | 80% |
| SME- ddim yn Micro-endid<br><br>Mae busnesau bach a chanolig yn fusnes sydd â llai na 250 o weithwyr neu lai ar adeg gwneud cais ac un o'r nodweddion canlynol: a) trosiant o lai na £36 miliwn; b) £18 miliwn neu lai ar ei fantolen. | 50% |
| Preifat (heb fod yn BBaCh) | 30% |
| Budd cyfunol neu fuddiolwyr cyfunol | 100% |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau-syn-berthnasol-i-bob-rownd-addendwm-i-adrannau-b-ac-c** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Ymgeisydd | Y gyfradd ymyrraeth uchaf |
|---|---|
| (e.e. sefydliadau cynhyrchwyr neu Gymdeithasau Pysgotwyr) | |
| Sefydliadau'r sector cyhoeddus (gan gynnwys cyrff cyfraith gyhoeddus) | 100% |
| Elusennau | 100% |

## Cydymffurfio â Sefydliad Masnach y Byd a Rheoli Cymorthdaliadau

Ers gadael awdurdodaeth reoleiddio'r UE, mae gwariant ar bysgodfeydd a'r rhan fwyaf o bynciau cysylltiedig wedi gorfod cydymffurfio â chytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar gymorthdaliadau a mesurau gwrthbwysol (ASCM) a rhwymedigaethau'r DU o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE (TCA).

Cafodd Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022 a daeth i rym ar 4 Ionawr 2023.

Mae'r egwyddorion rheoli cymhorthdal yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau a Mesurau Gwrthgyferbyniol ac yn y Cytundebau Masnach Rydd y mae Llywodraeth y DU yn eu trafod â gwledydd yn dilyn Ymadael â'r UE (Cytundebau Masnach y DU i bob pwrpas) yn berthnasol ar hyn o bryd i Gynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru: Rownd Ariannu Cyffredinol.

Mae "cymorthdal" yn y cyd-destun hwn yn golygu bod cymorth ariannol, a roddir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau-syn-berthnasol-i-bob-rownd-addendwm-i-adrannau-b-ac-c** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gan awdurdod cyhoeddus, yn benodol ac yn rhoi mantais economaidd ar un neu fwy o fentrau, ac sydd wedi, neu sy'n gallu cael effaith ar gystadleuaeth neu fuddsoddiad o fewn y DU, neu fasnach neu fuddsoddiad rhwng y DU a gwlad neu diriogaeth arall. Nid yw pob grant a ddyfernir gan Gynllun Môr a Physgodfeydd Cymru: Rownd Ariannu Gyffredinol yn perthyn i'r categori cymorthdal. Mae canllawiau rheoli cymhorthdal Llywodraeth Cymru yn cynnwys mwy o wybodaeth am beth yw cymhorthdal a beth yw ystyr rheoli cymhorthdal.

Mae’n bosibl y caiff eich manylion eu cyhoeddi ar gofrestr o dderbynnwyr cyllid gyhoeddus os bydd y cyllid yn bodloni’r meini prawf ar gyfer datgelu cyhoeddus.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau-syn-berthnasol-i-bob-rownd-addendwm-i-adrannau-b-ac-c** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.